

Gorffennaf 2020

At Gyfarwyddwyr Addysg/Gwasanaethau Plant

COVID-19 – agor ysgolion ym mis Medi 2020

Annwyl Gydweithiwr

Ar 9 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer agor ysgolion yn llawn ym mis Medi 2020.

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn cafwyd cyngor gan Lywodraeth Cymru ar 13 Gorffennaf i gefnogi cyflogwyr ac ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer agor.

Mae NASUWT yn deall y bydd cyflogwyr wedi canfod yr amserlen ar gyfer cwblhau eu cynlluniau i agor ym mis Medi yn heriol iawn ac mae'n ymwybodol bod nifer ohonynt heb allu eu cwblhau nhw cyn diwedd tymor yr haf. Roedd llawer mwy ohonynt yn methu ymgynghori â'u staff a'r undebau ynghylch eu cynlluniau cyn i'r ysgolion gau.

Mae'r amserlen heriol hon a osodwyd gan Lywodraeth Cymru'n anoddach fyth i'w chyflawni am nad oedd y canllawiau yngl n ag agor ym mis Medi'n ganllawiau terfynol neu gyflawn. Mae canllawiau ychwanegol a diwygiedig yn dal i gael eu cyhoeddi, ac mae hyn yn debygol o barhau dros yr wythnosau nesaf.

Mae NASUWT wedi'i ymrwymo i weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn agor yn ddiogel.

Man cychwyn pwysig i NASUWT yw bod yr un hawl gan athrawon a gweithwyr eraill mewn ysgolion dderbyn yr un ystyriaeth a chael eu diogelu yn yr un modd yn eu gweithleoedd ag sydd gan y cyhoedd a gweithwyr eraill, a bod hawl ganddynt deimlo'n hyderus bod eu hiechyd a'u lles, yn ogystal ag iechyd a lles y disgyblion, yn ganolog i unrhyw broses o gynllunio ar gyfer agor ysgolion.

Ein disgwyliad yw y bydd pob awdurdod lleol yn sicrhau bod pob ysgol a gynhelir a phob lleoliad addysgol a gynhelir wedi cwblhau eu rhestr wirio iechyd a diogelwch cyn yr agor. Mae NASUWT wedi cynhyrchu rhestr wirio iechyd a diogelwch cyn yr agor sydd ar gael ar: www.nasuwt.org.uk/fullreopeningWales a gobeithiwn y byddwch yn cael hon yn ddefnyddiol.

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru i gyflogwyr yn disodli unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cyflogaeth neu gydraddoldeb, ac mae'n rhaid i gyflogwyr barhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd ganddynt yn barod, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae NASUWT yn hyderus y bydd awdurdodau lleol eisiau sicrhau bod pob ysgol a gynhelir a phob lleoliad addysgol a gynhelir wedi:

- datblygu cynllun COVID-19 cynhwysfawr ar gyfer yr agor, yn cynnwys asesiadau risg newydd, sydd wedi bod yn bwnc ymgynghoriad llawn gyda'r holl staff ac undebau, cyn i unrhyw ddisgyblion gychwyn ym mis Medi;
- diweddarau eu hasesiadau risg tân, mewn ymgynghoriad ag undebau, er mwyn cymryd i ystyriaeth y risg uwch o gael meintiau sylweddol o hylif diheintio dwylo – sy'n cynnwys lefel uchel o alcohol –

ar y safle a chydymffurfio gyda'i ofynion storio diogel. Mae'n rhaid cynhyrchu canllawiau clir hefyd i staff er mwyn sicrhau bod yr hylif yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel;

- sicrhau darpariaeth lanhau ychwanegol;
- rhoi arwyddion amlwg yn eu lle i sicrhau bod pellter corfforol yn cael ei gadw, bod y safonau glendid yn uchel a bod yr adeiladau a'r safle'n cael eu defnyddio'n ddiogel;
- gwneud asesiadau risg unigol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn glinigol, gan gynnwys y rheiny sy'n feichiog, sydd ag anabledd, sydd â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes neu sydd o gefndir BAME, cyn iddynt ddychwelyd yn llawn i'r gweithle;
- cynnwys adleoliad diogel athrawon cyflenwi yn rhan o'u cynlluniau;
- sicrhau bod cymorth cwnsela ar gael i'w staff a'u disgyblion;
- cyflwyno gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaid â'r trefniadau a nodir yn yr asesiadau risg, a bod y cydymffurfiaid hwn yn cael ei gynnal a bod trefn i ddelio ar unwaith gydag unrhyw achosion o beidio cydymffurfio;
- cyflwyno gweithdrefn i roi gwybod am unrhyw ganlyniadau positif i brofion COVID-19 ymysg eu staff a'u disgyblion, ac i ymdrin â'r sefyllfa honno;
- cyflwyno gweithdrefnau i allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw gyhoeddiad am gyfyngiadau symud yn lleol.

Mae NASUWT yn disgwyl hefyd y bydd awdurdodau lleol yn atgoffa eu hysgolion bod rhaid parchu a glynu at hawliau cytundebol yr athrawon mewn perthynas â chyflogau ac amodau gwaith eraill, gan gynnwys wrth gynllunio, er enghraifft, drefniadau dal i fyny neu agor a chau ar wahanol amseroedd.

Hefyd, mae'r Undeb yn ailadrodd y safbwynt y mae wedi ei nodi eisoes: ein bod yn cyflwyno hysbysiad ffurfiol i'r cyflogwyr ac i Lywodraeth Cymru, i ddiogelu'r hawliau cyfreithiol sydd gan ein haelodau yng nghyd-destun hawliadau camwedus o dorri dyletswydd gofal a hawliadau anaf personol o ganlyniad i risgiau rhagweladwy, ac unrhyw gywiriadau cyfreithiol eraill sydd ar gael.

Hefyd, bydd NASUWT yn ystyried bod y cyflogwr yn torri'r hawliau cyfreithiol sydd gan ein haelodau o dan adrannau 44 a 100 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 os byddent wedi dioddef anfantais neu wedi cael eu diswyddo dan amgylchiadau lle mae rheswm gan ein haelodau i dybio bod perygl difrifol ar ddigwydd. Hefyd, cedwir yr hawliau sydd gan aelodau NASUWT o dan adrannau 47B a 103A y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (datgeliadau gwarchodedig at ddibenion 'chwythu'r chwiban'), gan gynnwys yr hawliau sydd ganddynt o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae NASUWT yn cydnabod bod ysgolion a chyflogwyr wedi cael eu rhoi mewn sefyllfa lle bydd penderfyniadau anghywir yn peri i bobl fynd yn ddifrifol sâl neu i farw, ac y byddent felly'n gwerthfawrogi'r ffaith na ellir cyfaddawdu ar iechyd a diogelwch. Os bydd hyn yn golygu bod angen i ysgolion ohirio agor yn gyflawn i'w holl ddisgyblion er mwyn sicrhau y gallent gwblhau'r holl gynllunio, ymgynghori a hyfforddi staff sy'n ofynnol i ddiogelu iechyd a diogelwch eu staff a'u disgyblion, yna bydd rhaid derbyn y sefyllfa honno.

Mae NASUWT yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y gweithwyr a'r disgyblion wedi'u diogelu o dan yr amgylchiadau digynsail hyn.

Yr eiddoch yn gywir



Dr Patrick Roach
Ysgrifennydd Cyffredinol